

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN YSGOL LLANDDOGED, LLANDDOGED NOS LUN 22ain Ionawr , 2017.**

**PRESENNOL**

Cyng. Nerys Dobson (Cadeirydd) , Cyng. John Owen, Cyng. Alun Morris, Cyng. Dylan Jones, Cyng. Arwel Ll.Jones, Cyng. Mike Rayner , Delyth Algieri (clerc).

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Eifion Williams, Cyng. Hefin Martin, Cyng. Austin Roberts

**COFION**

Y Cyngor yn anfon eu cofion at Cyng Austin Roberts sydd wedi derbyn profedigaeth a chofion at gyn Cynghorydd Dewi Arfon Jones sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

**Cadarnhau'r Cofnodion**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 27ain Tachwedd, 2017.

**Materion yn codi o'r cofnodion**

**Y BONT, PONT Y GARTH MAENAN**

Cyhoeddodd Cyng. Nerys Dobson bod cyfarfod wedi cymryd lle ym Mhont y Garth gyda swyddogion o'r Adran Draffig ,Cyngor Conwy ar yr 11eg o Ragfyr 2017 i drafod y posibiladau o gyflwyno mesurau lliniaru traffig er mwyn lleihau'r risg o niwed pellach i'r bont. Roedd yr Adran yn hapus i glirio o gwmpas y bont i'r cerbydau cael mwy o le i fynd drosti. Nodwyd hefyd y bydd arwydd 'Dim yn addas i lorïau trymion' yn cael ei osod wrth groesffordd Cae Llwyd.

**DIFFIBLIWR I ARDAL MAENAN**

Derbyniwyd e-bost gan Mrs Kelsall, Troed y Rhiw, Maenan yn rhoi gwahoddiad i aelodau'r Cyngor Cymuned Llanddaged a Maenan ymuno gyda nhw yn yr hyfforddiant diffibliwr yn Abaty Maenan ar yr 12fed o Fawrth 2018. Nododd Cyng. Nerys Dobson y buasai hi yn gallu mynychu'r hyfforddiant.

**YSWIRIANT AR Y DIFFIBLIWR**

Bydd y Cyngor angen gwneud ymholiadau ar bwy sydd yn gyfrifol i yswirio'r diffibliwr yn Llanddaged. Y Clerc am wneud ymholiadau gyda'r Ysgol Llanddaged a Rhydian Owen y Parafeddyg lleol.

**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLANRWST 2019**

Derbyniwyd llythyr gan Mr Trystan Lewis, Cadeirydd yr Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst 2019 yn cadarnhau fod yr ardal Llanddaged a Maenan angen codi'r swm o £7,500 o arian at gyllid yr Eisteddfod. Cafwyd gwybodaeth gan Cyng. Nerys Dobson a Cyng. Arwel Ll Jones fod cyfarfod apêl Eisteddfod Genedlaethol 2019 wedi cael ei sefydlu yn Llanddaged o dan arweiniad Alaw Owen, Ffrith Arw, Llanddaged. Bydd y cyfarfod nesaf o'r apêl yn cael ei gynnal nos Fawrth 23ain o Ionawr, 2018.

**GOFYNION PRAESEPT 2018/19**

Trafodwyd gofynion y praesept ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Rhannwyd y clerch gopi o gyllideb ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Trafodwyd y gyllideb a phasiwyd drwy godi dwylo fod angen codi'r praesept ar gyfer y flwyddyn 18/19 i £750 y flwyddyn sef y cyfanswm o £5,250.00 oherwydd llawer mwy o ofynion cynnal a chadw a.y.b.

## **CYNLLUNIO**

1. **Cais Rhif 0/44730** - Llinell wasanaeth foltedd-isel bresennol uwchben, angen caniatâd ol-weithredol ar gyfer ail gyflenwad tanddaearol - Glan yr Afon, Llangernyw .

Trafodwyd y cais cynllunio uchod a phasiwyd nid ydyw'r ardal yma yn berthnasol i Gyngor Llanddoded a Maenan.

## **GOHEBIAETH**

1. Un Llais Cymru - llythyr gwahoddiad i gyfarfod o Un Llais Cymru ym mis Chwefror.
2. Llythyr gan Eisteddfod Genedlaethol gyda gwybodaeth am yr Eisteddfod ar gyfanswm mae'r ardal angen ei godi ar gyfer yr Eisteddfod.

## **CYNNAL A CHADW**

- 1) Cangen yn gwyro i'r ffordd ac yn bachu mewn cerbydau trymion rhwng Carreg Ednyfed a Chae Brychiad.
- 2) Twll yn y ffordd wrth Glasfryn, Ffordd Fron Francis, Llanddoded.
- 3) Tyllau yn y ffordd wrth y Rectory Llanddoded(Clerc wedi derbyn nifer fawr o gwynion am gyflwr y ffordd Llanddoded gan drigolion y pentref).
- 4) Cyngor Cymuned yn diolch i'r Adran Ffyrdd am lanhau'r ffosydd ar ffordd Llanddoded yn ddiweddar.
- 5) Angen 'sweeper' i lawr ar ffordd Llanddoded
- 6) Angen torri'r gwair yn y fynwent Capel Soar, Tyn y Bryn , Llanddoded.( Cyng. Arwel Ll. Jones am gysylltu gyda gofalwyr y fynwent).
- 7) Polyn Giat , Gegin Wen Llanddoded wedi dod i lawr. - Cyng. Mike Rayner am edrych ar y sefyllfa.